## Geiriau Olaf

**Ac meddai Iesu, 'O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud'** (Luc 23:34).

Dyma'r cyntaf o saith ymadrodd Iesu ar y groes. Dywed efengyl Ioan fod y Gair a ddaeth yn gnawd yn llawn gras a gwirionedd, ac mae'n amlwg bod hynny wedi parhau tan y diwedd.

**Geiriau olaf:**
Mae pobl wedi crynhoi a chasglu geiriau olaf rhai o enwogion hanes. Dyma ambell un:
Pam yr wylwch? Oeddech chi'n meddwl fy mod yn anfarwol? (Louis XV111).
Arglwydd, cymorth f'enaid tlawd (Edgar Allan Poe).
Rwy'n gweld golau du (Victor Hugo).
Gelli fod yn frenin neu'n glanhau'r stryd, ond mae pawb yn dawnsio gyda'r medelwr mawr (Robert Alton Harris, drwgweithredwr a ddienyddiwyd)

Beth sydd yn drawiadol am saith ymadrodd olaf Iesu ar y groes yw eu bod yn gogoneddu'r Tad nefol ac yn adeiladol a chysurlon i'r rhai oedd o'i gwmpas.

**Gweithredu dysgeidiaeth:**
Peth arall trawiadol am agwedd Iesu yn y weddi yma yw ei fod yn gweithredu'n union yn ôl ei ddysgeidiaeth ei hun. Fe'n dysgodd yn y Bregeth ar y Mynydd â'r geiriau: 'carwch eich gelynion, a gweddïwch dros y rhai sy'n eich erlid' (Mathew 5:44).

Yn wir, mae Iesu'n dangos agwedd yr oen yn Eseia 53:7: 'Arweiniwyd ef fel oen i'r lladdfa, ac fel y bydd dafad yn ddistaw yn llaw'r cneifiwr, felly nid agorai yntau ei enau'.

'Pan fyddai'n cael ei ddifenwi, ni fyddai'n difenwi'n ôl; pan fyddai'n dioddef, ni fyddai'n bygwth' (1 Pedr 2:23).

Aeth Iesu'n bellach na hynny, fodd bynnag, a gweddïodd am faddeuant i'w erlidwyr. Fel 'gwas' Eseia, aeth mor bell ag 'eiriol dros y troseddwyr' (53:12).

**Gweddi'r Cyfryngwr:**
Mae hon yn weddi gyfryngol sydd yn esbonio pwrpas ac ystyr marwolaeth Crist ar y groes. Mae'n gweddïo y byddai'r Tad yn maddau i'w erlidwyr presennol, a phob pechadur gelyniaethus arall, pe byddent yn edifarhau ac yn credu'r Efengyl.

Pwrpas mawr y groes oedd sicrhau maddeuant troseddwyr ac erlidwyr Duw. Cawn ragflas o waith Crist yn y gogoniant heddiw yn eiriol dros bobl iddynt brofi blas maddeuant llawn trwy edifeirwch a ffydd yn y groes. Felly, gall y pechadur mwyaf, y ffieiddiaf o ddynion, trwy Grist ac mewn edifeirwch, obeithio am drugaredd.

**Pledio:**
Mae Iesu hyd yn oed yn mynd mor bell â phledio dros ei elynion: 'oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud'. Mae Paul yn adleisio hyn wrth ddweud nad oedd yr arweinwyr Iddewig wedi adnabod doethineb Duw yng Nghrist: 'oherwydd pe buasent wedi ei hadnabod, ni fuasent wedi croeshoelio Arglwydd y gogoniant' (1 Corinthiaid 2:8). Sut allen nhw sylweddoli'n llawn beth oedden nhw'n ei ddweud wrth ddymuno gwaed Crist arnyn nhw ac ar eu plant? (Mathew 27:25). Mae hyn yn wir o hyd, nad yw erlidwyr a chroeshoelwyr Crist ddim yn gwybod yn iawn beth maen nhw'n ei wneud; dydyn nhw ddim yn adnabod nac yn deall y person na'r Efengyl a wrthwynebant. Er hynny,

maen nhw'n gyfrifol am eu gweithredoedd ac yn wynebu barn Duw oni bai iddyn nhw edifarhau a chredu'r Efengyl.

**Ateb i weddi:**
Mae lle cryf i feddwl fod y Tad nefol wedi ateb gweddi ei Fab annwyl a ffyddlon.

Ni ddaeth barn Duw ar Jerwsalem yn syth. Cafodd ei phobl ddeugain mlynedd arall i glywed Efengyl maddeuant llawn.

Mae lle i gredu bod rhai o'r bobl oedd wrth y groes, a hyd yn oed yn erlid Iesu, wedi dod i gredu. Rhai ar ddydd y Pentecost, rhai ymhlith y miloedd yn fuan ar ôl hynny, 'ynghyd â thyrfa fawr o'r offeiriaid hefyd' (Actau 6:7). 'Does dim amheuaeth y cafodd y weddi ei chlywed gan y Tad nefol, ac o ganlyniad daeth llawer o'r bobl a dywalltodd ei waed i'w yfed maes o law' (John Calvin).

**Esiampl:**
Mae nifer o nodweddion Iesu yn esiampl i ni fel ei bobl. Roedd yn ei gyflwyno'i hun i ofal y Tad nefol bob amser; nid yn unig mewn hawddfyd, ond hefyd yng nghanol y ddrycin arwaf. Mae'n ein hatgoffa ni mai'r peth mawr pwysig i weddïo amdano i ni'n hunain ac i eraill, yw maddeuant. Dyma'r ffordd y dylem ni drin ein gelynion, sef gelynion yr Efengyl, heddiw. Mae rhai yn gwawdio, rhai yn dangos casineb a rhai yn erlid, ac mae'n eithaf posib y bydd hyn yn cynyddu yn ein gwlad ni. Dyma'r unig ffordd i Gristion ymateb i elyniaeth.

Nid gweddi arwynebol oedd hon. Nid dim ond dweud y geiriau cywir sydd yn bwysig. Daeth y gri yma o galon dosturiol, a chafodd ei chlywed am hynny. Dyna, felly, sy'n allweddol i ni hefyd.

***John Treharne***